



Adolygiad Blynyddol



2021

Cyflwyniad gan Brif Weithredwr QAA

Rydym wedi clywed y gair 'digynsail' yn aml iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond roedd 2021 yn sicr yn adeg ddigynsail ac anarferol i mi gymryd yr awenau fel Prif Weithredwr newydd QAA. Wrth i sector addysg uwch y Deyrnas Unedig barhau i lywio ei ffordd drwy effeithiau'r pandemig COVID-19, roedd QAA yn gwneud hynny hefyd. Aethom ati i newid ffocws ein rhaglen waith gyfan i gefnogi ymateb y sector i'r pandemig; caewyd ein swyddfeydd ledled y DU a dechreuodd bawb weithio o'u cartrefi; ac aethpwyd ati i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer yr asiantaeth a'r sector.

Wrth i ni gychwyn ar bennod newydd i QAA, gwnawn hynny gyda sylfeini cadarn sydd wedi eu gwreiddio yn ymrwymiad y sector cyfan i sicrhau ansawdd a safonau. Dim ond trwy gefnogaeth ein haelodau y gallem ganolbwyntio ar ddarparu i chi - hyd yn oed mewn sefyllfa ddigynsail. Roedd yn braf gennym groesawu mwy nag 20 o aelodau newydd; heddiw mae gennym fwy na 290 o aelodau - ymrwymiad gan fwy na 98% o'r prifysgolion yn y DU.

Lansiodd QAA brosiectau arloesol newydd i gefnogi'r gwaith o wella ansawdd, o'n Prosiectau Gwella Cydweithredol i'n haelodau, i'n cynllun newydd ar gyfer Gwerthuso a Gwella Ansawdd Darpariaeth Addysg Uwch Drawswladol y DU (Cynllun GA-AD).

Rydym wedi parhau i gefnogi'r gwaith sylweddol o ddiwygio'r system addysg drydyddol yng Nghymru a'r Alban, a chyflwyno gwelliannau sy'n greiddiol i'r cydweithredu; yng Ngogledd Iwerddon hefyd aethom ati i ddechrau gwaith datblygu ar fodel gwelliant newydd wedi ei deilwra. Rydym hefyd wedi dwysáu ein partneriaethau drwy'r byd i gyd, gan gynnwys drwy gytundebau newydd yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Tsieina a Kazakhstan; gwaith meithrin gallu yng Ngorllewin Affrica mewn cydweithrediad â Banc y Byd a Chymdeithas Prifysgolion Affrica; a chyfranogaeth yn rhwydweithiau INQAAHE ac ENQA.

Mae ein gwaith rhyngwladol yn galluogi i ni rannu arferion rhyngwladol a hybu enw da addysg uwch y DU.

Dros y misoedd a'r blynyddoedd sy'n dod, bydd ein hasiantaeth yn parhau i weithredu mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 ac ateb anghenion y sector, gan ddarparu gwasanaethau diduedd, arweiniad agweddau a gweithgareddau gwella dynamig i'n haelodau. Mae'r heriau'n ddigynsail - os caf ddefnyddio'r gair eto - ond rwy'n gwybod y bydd QAA yn cyflawni ei blaenoriaethau strategol ac yn archwilio cyfleoedd newydd i gydweithio. Gall wneud hynny oherwydd yr hyder a'r ymddiriedaeth sydd gan ein haelodau ynddi ac, unwaith eto, hoffem ddiolch i chi am wneud hyn yn bosibl.

Diolch yn fawr i chi.



A handwritten signature in black ink, appearing to read 'V. Stott'.

Vicki Stott
Prif Weithredwr

Cefnogi aelodau QAA i wella ansawdd

Mewn cydweithrediad â'n haelodau a'n partneriaid yn sector addysg uwch y DU, aethom ati i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau i ymateb i broblemau argyfyngus sy'n wynebu'r sector.



Fframwaith Credydau Addysg Uwch ar gyfer Lloegr

Aethom ati'n ffurfiol i lansio ail argraffiad y Fframwaith Credydau Addysg Uwch ar gyfer Lloegr, a ddatblygwyd yn gyntaf yn 2008. Nod y fersiwn ddiwygiedig yw cefnogi darparwyr yn Lloegr i ddatblygu system o gredydau academaidd sy'n hyblyg, yn eglur ac yn gyson.



Datganiadau Meincnodi Pwnc

Mae 166 o gynrychiolwyr o blith ein haelodau wedi ymuno â grwpiau cynghori ar gyfer y 14 Datganiad Meincnodi Pwnc sydd i gael eu cyhoeddi yn 2022.



Ymwreiddio ymgysylltiad myfyrwyr

Mae ymgysylltiad myfyrwyr yn parhau i fod yn elfen ganolog o waith cyfan QAA. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad gennym eleni oedd yn canolbwyntio ar fyfyrwyr - 'Quality Matters' ac 'Evolving Student Engagement' - ac aethom ati i ddatblygu nifer o adnoddau i fyfyrwyr, yn cynnwys dogfen i gefnogi trafodaethau myfyrwyr am ansawdd, safonau a gwerth am arian.




Siarter Uniondeb Academaidd

Cafodd ein Siarter Uniondeb Academaidd, a luniwyd mewn cydweithrediad â Grŵp Cynghori ar Uniondeb Academaidd y DU, ei hardystio gan Weinidogion Addysg Uwch y llywodraethau yn y DU. Hyd yn hyn, mae 180 o sefydliadau a chyrrff wedi llofnodi'r Siarter.



Ymwreiddio cyflogadwyedd ar draws y cwricwlwm

Mewn cydweithrediad ag Advance HE, mae QAA yn cefnogi ein haelodau i ymwreiddio 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' yn rhan o'u prosesau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, dysgu ac asesu, drwy ddatblygu canllawiau diwygiedig.



Cefnogi cydweithredu i wella ansawdd

Darparodd QAA £100,000 i gyllido 13 o Brosiectau Gwella Cydweithredol, er mwyn galluogi i grwpiau bychain o'n haelod-sefydliadau gydweithio i wella ansawdd profiadau dysgu'r myfyrwyr a datblygu cynnyrch er budd Aelodaeth ehangach QAA.

Rwy'n gwir werthfawrogi dull Aelodaeth QAA o ddod â phobl ynghyd o bob rhan o'r sector i sicrhau bod y math o waith sy'n cael ei ddatblygu wedi ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Steve Taylor, Deon Addysg Uwch, Grŵp Colegau Swydd Warwick

Gweithio gyda'n haelodau yn ystod 2020-21

279

o ddarparwyr o bob rhan o'r DU a gofrestrodd ar gyfer Aelodaeth QAA yn ystod 2020-21

Cyhoeddwyd ystod neilltuedig o adnoddau i'n haelodau



138

o adnoddau i Aelodau QAA:

94

Aelodaeth Graidd

23

'Quality Insights'

21

'International Insights'

Cafwyd ystod o weminarau, digwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau



40

o weminarau

2,275 o gyfranogwyr

289 o sefydliadau



31

o ddigwyddiadau
a gweithdai

1,427 o gyfranogwyr

312 o sefydliadau



12

o raglenni hyfforddi

243 o gyfranogwyr

130 o sefydliadau

4.4/5 ★

Dyma'r sgôr a gawsom am fodlonrwydd gyda safon y cynnwys

Ymateb i'r pandemig COVID-19 a symud y tu hwnt iddo



o adnoddau newydd

I gefnogi'r darparwyr i addasu a datblygu eu darpariaeth mewn ymateb i heriau'r pandemig, cyhoeddodd QAA 85 o adnoddau newydd.



Lansiwyd cyfres 'Quality Compass'

Lansiwyd cyfres newydd dan y teitl 'Quality Compass' i ddarparu arweiniad deallus wrth ystyried heriau a chyfleoedd y dyfodol, yn cynnwys dyfodol dulliau asesu digidol, micro-gymwysterau a dulliau dysgu hybrid.



Roedd rhwydweithiau newydd yn darparu fforwm i gydweithwyr o blith holl aelodau QAA i ddod at ei gilydd a thrafod heriau sy'n wynebu'r aelodau i gyd a datblygiadau newydd mewn polisiau. Sefydlwyd rhwydweithiau penodol i Ddirprwy Is-Gangellorion a cholegau sy'n darparu addysg uwch, yn ogystal â rhwydwaith i'r holl aelodau.

287

o gyfranogwyr mewn

5

sesiwn briffio gan Rwydwaith y Dirprwy Is-Gangellorion

85

o gyfranogwyr yn ein Rhwydwaith Polisi ac Arferion newydd i golegau sy'n darparu addysg uwch

237

o gyfranogwyr o

135

o'n haelod-sefydliadau yn ein digwyddiadau rhwydweithio a gynhelir ddwywaith y flwyddyn

Mae QAA wedi bod yn ymatebol tu hwnt gan fynd ati i weithredu fel arweinydd yn gyflym iawn, ac mae wedi bod yn flaenllaw ym mhopeth y mae angen i sefydliadau feddwl amdanynt. Yr hyn sy'n golygu llawer iawn i mi yw nad ydyn nhw wedi gwneud hynny'n annibynnol ar y sector, a chredaf fod hynny'n hynod o bwysig.

Katie Akerman, Cyfarwyddwr Ansawdd a Safonau, Prifysgol Chichester

Gweithio drwy'r DU gyfan

Gogledd Iwerddon:

- Buom yn arwain trafodaethau â rhanddeiliaid yn y sector yng Ngogledd Iwerddon ac yn comisiynu dau brosiect i ystyried anghenion y sector wrth i ni geisio datblygu dull pwrpasol newydd o asesu ansawdd i sicrhau gwelliant. Mae Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon wedi dweud yr hoffent i QAA wneud adolygiad ansawdd ffurfiol yng Ngogledd Iwerddon, ac o bosib weithredu'r dull newydd drwy drefniant cytundebol.




Yr Alban:

- Cwblhawyd pedwar Adolygiad Sefydliadol i Sicrhau Gwelliant ym mis Tachwedd 2020, ac yn dilyn hynny dri arall yng ngwanwyn 2021.
- Ym mis Tachwedd 2020, cynhaliwyd ein Cynhadledd Ryngwladol ar Welliant ar-lein, a ddaeth â 450 o gyfranogwyr o 26 o wledydd at ei gilydd i rannu arferion a dulliau dysgu arloesol a ddaeth i'r amlwg o'r Themâu Gwelliant yn yr Alban, a rhai o bob rhan o'r byd.
- Ar ôl cwblhau ein Thema Gwelliant ar gyfer 2017-20, aethom ati i lansio ein Thema Gwelliant ar gyfer 2020-23, sy'n canolbwyntio ar Gymunedau Dysgu Cadarn. Mae'r thema newydd wedi dechrau gyda saith prosiect cydweithredol sydd wedi eu seilio ar drafodaethau ar-lein.

Cymru:

- Cwblhawyd tri Adolygiad Gwella Ansawdd a dau Adolygiad Ansawdd Porth drwy weithio ar-lein.
- Comisiynwyd QAA gan CCAUC i gwblhau Adolygiad o Brentisiaethau Gradd a gyllidir gan CCAUC yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21. Ym mis Hydref 2020, aethom ati i gyhoeddi'r llawlyfr ar gyfer yr adolygiad hwn ac, ar ôl cwblhau'r adolygiadau'n llwyddiannus, aethom ati i gyhoeddi adroddiad i'r sector cyfan ym mis Medi 2021 oedd yn crynhoi'r canfyddiadau.
- Yn dilyn trafodaethau gyda'r darparwyr yng Nghymru a CCAUC, aethom ati i gyhoeddi adendwm i'r Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd - er mwyn gostwng cwmpas yr adolygiadau sefydliadol a wneir yn ystod 2021-22 i ganolbwyntio ar gyfrifoldebau statudol CCAUC. Er na fydd cwmpas y gweithgareddau adolygu'n cynnwys gwella ansawdd, bydd QAA yn parhau i ymgysylltu â'i haelodau yng Nghymru i gynnal ei chyfranogaeth mewn gweithgareddau gwella ansawdd.




Lloegr:

Ar wahân yn llwyr i'n gwaith i'n haelodau, fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr, mae QAA yn gweithio, o dan gomisiwn gan y Swyddfa Myfyrwyr, i asesu ansawdd rhaglenni addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr yn Lloegr, a'r safonau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni hynny.

- Yn ystod 2020-21, cyfeiriwyd 18 o geisiadau asesu atom a chwblhawyd 24 ohonynt, gan gynnwys comisiynau a gariwyd drosodd o'r flwyddyn flaenorol.
- Rydym hefyd yn rhoi cyngor i'r Swyddfa Myfyrwyr ar geisiadau am bwerau dyfarnu graddau, drwy'r Pwyllgor Cynghori ar Bwerau Dyfarnu Graddau, o dan awdurdod dirprwyedig gan Fwrdd QAA. Yn ystod 2020-21, darparodd y Pwyllgor hwn gyngor ynglŷn â naw darparwr, ac, o ganlyniad, rhoddodd y Swyddfa Myfyrwyr bwerau dyfarnu graddau i bedwar o'r darparwyr hyn.



Cefnogi ein haelodau a sector addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd

Uchafbwyntiau 2020-21



Addysg drawswladol

Yn ystod 2019-20, bu:

-  **156** o brifysgolion yn y DU yn adrodd ar weithgareddau addysg trawswladol
-  **225** o wledydd a thriogaethau'n darparu cyrsiau addysg trawswladol
- mwy na 453,000** o fyfyrwyr yn astudio dramor ar gyfer dyfarniadau'r DU

Yn ystod y flwyddyn, aethom ati i ddatblygu ein cynllun newydd ar gyfer gwella ansawdd darpariaeth addysg drawswladol y DU (Cynllun GA-AD). Cafwyd y datblygiad hwn yn dilyn ymgynghoriad estynedig â'r sector addysg uwch yn y DU a thramor, a gafodd gyfraniad gan fwy na 100 o gynrychiolwyr o fwy nag 20 o wledydd ac a gafodd groeso cynnes gan asiantaethau sicrhau ansawdd a chyrrff rheoleiddio tramor.

Comisiynwyd QAA gan Brifysgolion y DU a GuildHE i ddatblygu'r cynllun hwn ar ran y sector, a bydd y rhaglen hon yn cefnogi'r sector yn y DU yn ei waith o wella ansawdd ei ddarpariaeth dramor, drwy broses adolygu gan gymheiriaid a'r cyfle i ddefnyddio ffynonellau neilltuedig o wybodaeth ryngwladol.

Gwaith achredu

Yn dilyn lansio ein marc achrediad byd-eang newydd ym mis Tachwedd 2019, aethom ati i gyhoeddi dau adroddiad a wnaed o dan y dull Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol yn ystod 2020-21, ac mae rhagor o adolygiadau ar waith. Mae'r dull adolygu hwn yn rhoi cyfle i sefydliadau tramor ennill achrediad rhyngwladol drwy broses adolygu gan gymheiriaid sy'n eu mapio nhw yn erbyn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd. Mae hyn yn sicrhau bod y sector yn y DU yn hyderus am y trefniadau ansawdd sydd gan ei bartneriaid tramor, ac mae'n hwyluso datblygiad cydberthnasau trawswladol newydd.



Partneriaethau

Rydym yn parhau i gryfhau partneriaethau gydag asiantaethau ac adrannau llywodraethau tramor a'r llywodraethau yn y DU, sy'n cynnwys y British Council, yr Adran Masnach Ryngwladol, a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

Trwy ein perthynas gref gyda'r British Council, rydym wedi datblygu partneriaethau yn Tsieina, rhanbarth y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica, Canolbarth a De America, Twrci, Aserbaijan, Moroco, yr Wcráin, India, Fietnam, Tiwnisia a Phacistan. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu cydberthnasau newydd mewn gwledydd eraill, yn cynnwys ym Mheriw, Saudi Arabia, Nigeria, Ghana a Kuwait.



Aethom ati i lofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd ag Awdurdod Gwybodaeth a Datblygiad Dynol yr Emiraethau Arabaidd Unedig [Knowledge and Human Development Authority (KHDA)], SkillsFuture Singapore (SSG), Canolfan Gwasanaeth ar gyfer Cyfnewid Addysgol Tsieina [Chinese Service Centre for Scholarly Exchange (CSCSE)] a'r Asiantaeth Annibynnol ar gyfer Sicrhau Ansawdd Addysg yn Kazakhstan [Independent Agency for Quality Assurance in Education (IQAA)].

Mae ein partneriaethau rhyngwladol yn golygu ein bod yn gallu cyrchu ffynonellau gwybodaeth ac arferion gorau rhyngwladol sydd wedyn yn cael eu rhannu gyda'n haelodau ac yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu adnoddau QAA. Mae gweithgareddau tramor yn cefnogi QAA i gyflawni ei phrif nod o wella ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, yn ogystal â helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth ar draws y ffiniau ac ymddiriedaeth a pharch rhwng y sectorau addysg uwch.

Mae QAA yn parhau i gymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau sicrhau ansawdd rhyngwladol drwy'r byd i gyd, ac eleni cymerodd staff QAA rolau allweddol ar nifer o fyrddau a phwyllgorau rhyngwladol, fel a ganlyn:

Douglas Blackstock

(Cyn Brif Weithredwr) - Llywydd ENQA

Gareth Crossman

(Pennaeth Polisi a Chyfathrebu) - Cadeirydd Grŵp Cynghori ar Uniondeb Academaidd ENQA

Alastair Delaney

(Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Dirprwy Brif Weithredwr) - Aelod o Bwyllgor Adolygu Asiantaethau ENQA

Ian Welch

(Arbenigwr Sicrhau Ansawdd) - Cadeirydd y Panel Cynghori i Asiantaeth Genedlaethol yr Wcráin ar gyfer Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch [National Agency for Higher Education Quality Assurance (NAQA)]



Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch

Mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn gymhwyster sy'n paratoi pobl sydd heb gymwysterau traddodiadol ar gyfer astudio mewn prifysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae QAA wedi bod yn rheoli'r cynllun i gydnabod cyrsiau Mynediad i AU a sicrhau eu hansawdd ers 1997.

Ar hyn o bryd mae 11 o Asiantaethau Dilysu Mynediad sydd wedi eu trwyddedu gan QAA i gymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU a dyfarnu cymwysterau Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA i fyfyrwyr - mae hyn yn berthnasol i fwy na 1,250 o gyrsiau.

Ar ran ei haelodau, rydym yn gweithio'n agos â'r llywodraethau yn y DU, UCAS, Ofqual, Cymwysterau Cymru a darparwyr addysg uwch i sicrhau bod y Diploma'n parhau i helpu i ehangu cyfranogaeth mewn addysg uwch.

313


o ddarparwyr Mynediad i AU wedi darparu cyrsiau

42,080


o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU yn ystod 2020-21

24,195

o'r myfyrwyr hyn wedi ennill y Diploma Mynediad i AU yn ystod 2020-21




o'r myfyrwyr yn nodi eu bod yn ferched




o'r myfyrwyr yn nodi eu bod yn ddyinion

Roedd



o'r myfyrwyr yn 25 oed neu'n hŷn



o'r myfyrwyr yn nodi eu bod o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig*

* Ni chafwyd data am ethnigrwydd oddeutu 37% o'r myfyrwyr Mynediad i AU.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol a gyflwynwyd mewn ymateb i'r argyfwng COVID-19:

Cynhaliwyd



37

o weminarau gwybodaeth i fyfyrwyr a darparwyr cyrsiau, gyda mwy nag

800

o gyfranogwyr cofrestredig

Cynhaliwyd



11

o weminarau i safonwyr mewnol, gyda mwy na


550

o gyfranogwyr cofrestredig



24,195

o fyfyrwyr wedi cael eu cefnogi i gyflawni eu Diplomâu drwy'r Fframwaith, sy'n cynnwys **325** o fyfyrwyr sydd wedi ennill y Diploma ar sail dyfarniad dan amgylchiadau esgusodol

Cynhaliwyd  **32** o glinigau ar-lein i Asiantaethau Dilysu Mynediad

Edrych ymlaen: blwyddyn academaidd 2021-22



Mae **292** o ddarparwyr o bob cwr o'r DU wedi dewis adnewyddu eu haelodaeth neu ymuno â QAA (hyd at fis Tachwedd 2021)

Yn ystod 2021-22, mae ein cynnig Aelodaeth yn rhychwantu pum thema rymgberthynol. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith drwy'r DU gyfan i sicrhau ansawdd a safonau, yn ogystal â gweithgareddau gwella sy'n cael eu datblygu ar y cyd â'n haelodau i sicrhau bod ein gweithgareddau'n ymatebol i'r cyd-destunau gwahanol y mae ein haelodau'n gweithredu oddi mewn iddynt. Mae'r pum thema hyn yn cael eu tanategu gan amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer rhwydweithio, hyfforddi a datblygu.



Edrych y tu hwnt i'r argyfwng COVID-19
- Dyfodol y ddarpariaeth addysg ddigidol a chyfunol



Gwerthuso a gwneud penderfyniadau ar sail data



Ymgysylltiad rhyngwladol a darpariaeth addysg drawswladol



Creu Cymunedau Dysgu Cynhwysol - Llwybrau a dulliau hyblyg o ddysgu ac addysgu



Sicrhau ansawdd a safonau academaidd



Byddwn yn cyflwyno'r flwyddyn gyntaf o'n Cynllun GA-AD, sydd â 78 o sefydliadau'n cymryd rhan, gan gynrychioli mwy na 70% o boblogaeth y myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni addysg drawswladol y DU. Nod y cynllun hwn yw datblygu gwell dealltwriaeth, cydnabyddiaeth a pharch rhwng y Deyrnas Unedig a'r gwledydd tramor sy'n cynnig ei darpariaeth addysg drawswladol, gan hefyd wella ansawdd y ddarpariaeth addysg drawswladol.



Byddwn yn gweithio gyda gwleidyddion, gwneuthurwyr polisi a chyrrff rheoleiddio, gan ymgysylltu â diwygiadau arfaethedig i'r sector yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau yn y DU fel bod modd i'r gwaharddiad ar felinau traethodau yn Lloegr ddod i rym ymhob gwlad o'r DU, ac yn gweithio i gytuno ar ddull newydd o adolygu ansawdd i Ogledd Iwerddon.



Bydd QAA yn dathlu ei 25ain pen-blwydd yn 2022, i nodi chwarter canrif fel awdurdod blaenllaw ar ansawdd a safonau yn sector addysg uwch y DU. Rydym yn bwriadu cynnal nifer o ddigwyddiadau i nodi'r achlysur, mewn cydweithrediad â'n haelodau a'n partneriaid yn y DU a thramor.

Dyddiad cyhoeddi - 2 Rhagfyr 2021